

Adroddiad Interim: Crynodeb

Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Ebrill 2018



Adroddiad Interim: Crynodeb

Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Ebrill 2018

Adroddiad o'r Panel Ymchwilio gan yr

Athro Alexis Jay OBE

Yr Athro Syr Malcolm Evans KCMG OBE

Ivor Frank

Drusilla Sharpling CBE

© Hawlfraint y Goron 2018

Gall testun y ddogfen hon (mae hyn yn eithrio, lle bo'n bresennol, yr Arfbais Frenhinol a phob logo adrannol neu asiantaeth) gael ei atgynhyrchu am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu ac heb fod mewn cyd-destun camarweiniol.

Mae'n rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint y Goron a chyfeirio'n benodol at deitl y ddogfen. Lle bo'r deunydd trydydd parti wedi cael ei adnabod, mae'n rhaid ceisio caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn contact@iicsa.org.uk neu Freepost IICSA INDEPENDENT INQUIRY.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn: www.iicsa.org.uk/key-documents

ISBN 978-1-5286-0343-0

CCS0418477776 04/18

Wedi ei argraffu ar bapur â lleiafswm cynnwys 75% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan y Grŵp APS ar ran Reolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Rhagair

Cefais fy mhenodi yn Gadeirydd ym mis Awst 2016. Ym mis Rhagfyr 2016, wedi cwblhau adroddiad ar raglen waith yr Ymchwiliad, cyhoeddais y byddwn yn creu adroddiad interim ym mis Ebrill 2018. Ers hynny, mae'r Ymchwiliad wedi cynnal pump gwarantawiad cyhoeddus, cyhoeddi nifer o adroddiadau ar rannau penodol o'i waith - gan gynnwys canfyddiadau dau wrandawriad cyhoeddus - a chynnal cyfres o seminarau i drafod materion sy'n berthnasol i gam-drin plant yn rhywiol. Mae dros 1,000 o ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol wedi rhannu eu profiadau gyda Phrosiect Gwirionedd yr Ymchwiliad.

Mae'r adroddiad interim hwn yn cyfuno'r gwaith a ddisgrifiwyd uchod, ac yn crybwyll y cynnydd rydyn ni'n ei wneud. Mae'n darparu trosolwg o'r gwarantawiadau cyhoeddus sydd wedi archwilio i ymddygiad sefydliadau penodol. Mae e hefyd yn nodi dadansoddiad yr Ymchwiliad o ymchwil cyfredol a thrafodaethau seminarau'r Ymchwiliad am faterion allweddol sy'n ymwneud â chwmpas yr Ymchwiliad.

Rydyn ni hefyd yn cynnwys yr hyn mae'r Ymchwiliad yn ei ddysgu gan y Prosiect Gwirionedd. Mae hyn yn adlewyrchu dymuniadau'r nifer o ddiodefwyr a goroeswyr sydd wedi cymryd rhan yn y Prosiect Gwirionedd sydd am i'w profiadau gael eu defnyddio gan yr Ymchwiliad yn ei waith.

Pan fo'r Panel a minnau yn credu y gellir gwneud newidiadau i warchod plant rhag camdriniaeth rywiol yn well, rydyn ni'n nodi hynny, ac rydyn ni'n gwneud nifer o argymhellion. Rydyn ni'n disgwyl i sefydliadau weithredu ar ein hargymhellion ac, er budd tryloywder a gonestrwydd, yn gofyn i bob sefydliad gyhoeddi manylion o'r camau y byddant yn eu cymryd mewn ymateb i'r argymhelliad gan gynnwys yr amserlen briodol.

Mae'r adroddiad hefyd yn crybwyll y themâu allweddol sy'n codi o waith yr Ymchwiliad hyd yn hyn. Mae hyn wedi codi materion pwysig am amharodrwydd y gymdeithas i drafod cam-drin plant yn rhywiol, ac rydyn ni'n ei ystyried yn fater y dylid mynd i'r afael ag ef os ydym ni am i sefydliadau warchod plant rhag y cam-drin hwn yn well yn y dyfodol. Rydyn ni hefyd yn ystyried y dylai uwch-arweinwyr o fewn sefydliadau fod yn fwy agored a gonest wrth adnabod methiannau i warchod plant rhag cam-drin rhywiol yn y gorffennol.

Mae yna lawer o dystiolaeth i'w chlywed o hyd - gan gynnwys wyth gwarantawriad cyhoeddus arall dros y 12 mis nesaf yn unig - felly disgwylwch ragor o themâu i godi wrth i'r Ymchwiliad fynd yn ei flaen. Mae meysydd eraill hefyd sydd wedi codi ar gyfer ymchwiliad posibl. Bydd yr Ymchwiliad yn ystyried y rhain yn ofalus wrth i'n gwaith fynd yn ei flaen.

Dynodais ym mis Rhagfyr 2016 fy mod i'n disgwyl i'r Ymchwiliad wneud cynnydd sylweddol erbyn 2020. Credaf ein bod ni ar y trywydd iawn i gyflawni hyn.

Yr Athro Alexis Jay OBE

Cadeirydd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Adroddiadau'r dioddefwyr a goroeswyr

Mae'r Ymchwiliad yn cydnabod bod rhai pobl sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol yn adnabod eu hunain yn ddioddefwyr, ac eraill yn oroeswyr camdriniaeth rywiol. Am y rheswm hwn, mae'n defnyddio'r term 'dioddefwr a goroeswr' wrth gyfeirio at rywun sydd wedi cael ei gam-drin yn rhywiol. Fodd bynnag, mae'r term 'achwynydd' yn cael ei ddefnyddio mewn cydestun gwrandawiadau cyhoeddus yr Ymchwiliad wrth gyfeirio at ddioddefwr neu oroeswr pan nad yw ffaith y cam-drin wedi'i sefydlu'n ffurfiol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o adroddiadau gan ddioddefwyr a goroeswyr. Mae'r adroddiadau hyn wedi cael eu gwneud yn ddiennw neu mae enwau ffug wedi cael eu defnyddio i sicrhau na ellir adnabod dioddefwyr a goroeswyr.

Mae cam-drin rhywiol yn peri i chi amau eich bod o unrhyw werth - roeddwn i'n meddwl y byddai'r byd yn well hebda i.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Mae cam-drin rhywiol pan yn blentyn yn difetha eich bywyd.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Mae'r gamdriniaewth rywiol y dioddefais pan yn naw oed wedi effeithio ar fy holl berthnasau gyda phobl eraill: teulu, gwaith, rhamantaidd, cymdeithasol a fy mherthynas gyda fi fy hun. Mae ei effaith wedi bod, ac yn parhau i fod, yn drychinebus.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Pan oeddwn i'n blentyn, roeddwn i eisiau cariad yn unig, ac i wneud pethau arferol fel gwisgo lan, pobi cacennau a bod yn ddiniwed. Ni ddylai plentyn ofni byw.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Cynnwys

1	Cyflwyniad	1
2	Trosolwg o'r Ymchwiliad	2
2.1	Y Prosiect Gwirionedd	2
2.2	Ymchwiliadau a gwrandawladau cyhoeddus	2
2.3	Ymchwil	3
2.4	Seminarau ac ymgysylltiad	3
3	Natur ac effeithiau cam-drin plant yn rhywiol	4
3.1	Beth yw cam-drin plant yn rhywiol?	4
3.2	Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol	5
4	Ymatebion sefydliadau i gam-drin plant yn rhywiol	7
4.1	Astudiaeth achos i raglenni mudo plant (rhan o'r archwiliad 'Plant tu allan i'r Deyrnas Unedig')	7
4.2	Cambridge House, Knowl View a Rochdale ('Rochdale') Ymchwiliad	8
4.3	Astudiaeth achos i Gynulleidfa Fenedictaidd Lloegr (rhan o ymchwiliad yr 'Eglwys Gatholig Rufeinig')	9
4.4	Astudiaeth achos i Esgobaeth Chichester (rhan o archwiliad yr 'Eglwys Anglicanaidd')	10
5	Ymarfer presennol i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol	11
5.1	Y rhyngwrwyd	11
5.2	Cyfiawnder troseddol	12
5.3	Cyfiawnder sifil	13
5.4	Y sector iechyd	14
6	Themâu sy'n dod i'r amlwg	16
6.1	Diwylliannol	16
6.2	Proffesiynol a gwleidyddol	17
6.3	Strwythurol	19
6.4	Ariannol	21
7	Rhaglen waith yr Ymchwiliad ar gyfer 2018-19	23

1 Cyflwyniad

Cafodd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol ei sefydlu ar 12 Mawrth 2015 yn ystyried i ba raddau mae'r Wladwriaeth a sefydliadau nad ydynt yn rhan o'r Wladwriaeth wedi methu yn eu dyletswydd gofal i amddiffyn plant rhag cam-drin a chamfanteisio rhywiol; i ystyried i ba raddau mae'r methiannau hynny wedi cael eu hateb; i nodi gweithredu pellach sydd ei angen i ateb unrhyw fethiannau a nodwyd i ystyried y camau sy'n angenrheidiol i sefydliadau Gwladwriaeth a nad ydynt yn ymwneud â Gwladwriaeth i'w cymryd er mwyn amddiffyn plant rhag y fath gamdriniaeth yn y dyfodol; ac i gyhoeddi adroddiad gydag argymhellion'.

Cadeirydd yr Ymchwiliad yw'r Athro Alexis Jay OBE ac mae yna dri aelod o'r Panel: yr Athro Syr Malcolm Evans KCMG OBE, Ivor Frank a Drusilla Sharpling CBE.

Mae Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad yn gofyn iddo gyhoeddi adroddiad interim erbyn diwedd 2018.¹ Dyma grynodedeb o'r adroddiad hwnnw.

¹ Terms of Reference. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/terms-of-reference

2 Trosolwg o'r Ymchwiliad

Mae'r Ymchwiliad wedi cynnal ei waith mewn sawl ffordd. Mae'r sylwadau a'r casgliadau yn y crynodeb hwn yn cael eu llywio gan bob agwedd o waith yr Ymchwiliad.

Panel Ymgynghorol y Dioddefwyr a'r Goroeswyr

Sefydlodd yr Ymchwiliad Banel Ymgynghorol y Dioddefwyr a'r Goroeswyr (VSCP) i ddarparu cymorth ac argymhellion ar agweddau o'i waith.

Mae aelodau'r VCSP yn cynnwys May Baxter-Thornton, Sheila Coates MBE, Lucy Duckworth, Emma Lewis, Fay Maxted OBE, Peter Saunders FRSA, Chris Tuck MAAT ACMA a Daniel Wolstencroft.

2.1 Y Prosiect Gwirionedd

Mae Cylch Gorchwyl yr Ymchwiliad yn gofyn iddo ddarparu cyfleoedd i ddioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant roi tystiolaeth i'r Ymchwiliad. Un o'r ffyrdd y mae'r Ymchwiliad wedi cyflawni'r rhwymedigaeth hon yw sefydlu'r Prosiect Gwirionedd, sy'n caniatáu i ddioddefwyr a goroeswyr c camdriniaeth rywiol yn blant i rannu eu profiad gyda'r Ymchwiliad. Hyd yn hyn, mae dros 1,000 o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol wedi cymryd rhan yn y Prosiect Gwirionedd.

Mae cefnogaeth emosiynol a chwmsela ar gael i bob dioddefwr a goroeswr sy'n cymryd rhan yn y Prosiect Gwirionedd. Gall dioddefwyr a goroeswyr hefyd benderfynu os ydynt am i'r wybodaeth y maent yn ei rhannu gyda'r Ymchwiliad gael ei defnyddio yn ei waith i ddibenion ymchwil, ac i lywio casgliadau ac argymhellion yr Ymchwiliad.

2.2 Ymchwiliadau a gwrandawiadau cyhoeddus

Hyd yn hyn, mae'r Ymchwiliad wedi sefydlu 13 ymchwiliad i archwilio ymddygiad sefydliadau yng Nghymru a Lloegr. Mae pum gwrandawriad cyhoeddus wedi'u cynnal hyd yn hyn ar:

- raglenni mudo plant (astudiaeth achos o fewn ymchwiliad 'Plant y tu allan i'r DU')²
- ymchwiliad 'Cambridge House, Knowl View a Rochdale'³
- Cynulleidfa Fenedictaidd Lloegr (astudiaeth achos o fewn ymchwiliad yr 'Eglwys Gatholig Rufeinig')⁴

² *Protection of children outside the United Kingdom: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/the-protection-of-children-overseas?tab=hearing

³ *Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/sexual-abuse-of-children-in-institutions-supervised-by-rochdale-borough-council?tab=hearing

⁴ *Child sexual abuse in the Roman Catholic Church: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/investigation-into-failings-by-the-catholic-church?tab=hearing

- gwrndawriad rhagarweiniol ar y'Rhyngrwyd a cham-drin plant yn rhywiol',⁵ ac
- Esgobaeth Chichester (astudiaeth achos o fewn ymchwiliad yr 'Eglwys Anglicanaidd').⁶

Mae'r Ymchwiliad eisoes wedi cyhoeddi ei adroddiad a'i ganfyddiadau o ran rhaglenni ymfudiad plant a gwrndawriadau cyhoeddus 'Cambridge House, Knowl View a Rochdale'. Bydd yr adroddiad a'r canfyddiadau o ran gwrndawriadau eraill yn cael eu cyhoeddi maes o law.

2.3 Ymchwil

Mae rhaglen ymchwil yr Ymchwiliad yn cyfuno'r swm sylweddol o dystiolaeth ymchwil sy'n bodoli am gam-drin plant yn rhywiol yn ogystal â chynnal ymchwil sylfaenol mewn meysydd allweddol a nodwyd gan yr Ymchwiliad. Mae'r Ymchwiliad wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau ymchwil a gellir dod o hyd i fwy o fanylion am raglen ymchwil yr Ymchwiliad yn yr adroddiad interim.

2.4 Seminarau ac ymgysylltiad

Mae gan yr Ymchwiliad nifer o wahanol ffyrdd o ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb yn ei waith. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal seminarau ar faterion allweddol a gweithio gyda'r Fforwm Dioddefwyr a Goroeswyr.

Mae'r Ymchwiliad wedi cynnal saith seminar hyd yn hyn, gn gwmpasu ystod eang gan gynnwys cyfiawnder sifil, iawndal anafiadau troseddol, y sector iechyd, gwasanaethau cefnogi, a phrofiad dioddefwyr a goroeswyr.⁷

Mae'r Fforwm Dioddefwyr a Goroeswyr yn galluogi dioddefwyr a goroeswyr i ymgysylltu â gwaith yr Ymchwiliad.⁸ Mae'r Ymchwiliad yn darparu cyfleoedd i aelodau Fforwm glywed am a thrafod agweddau gwahanol o waith yr Ymchwiliad, ac i gyfarfod ag aelodau eraill. Mae aelodau'r Fforwm wedi rhoi cyngor ar faterion a phynciau sy'n cael eu hystyried gan yr Ymchwiliad, gan gynnwys trwy gymryd rhan mewn seminarau a thrafodaethau grŵp ffocws. Mae yna bellach dros 270 o aelodau'r Fforwm ac mae'r Ymchwiliad yn ddiolchgar am eu cyfraniadau.

⁵ *The internet and child sexual abuse: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/child-sexual-abuse-facilitated-by-the-internet?tab=hearing

⁶ *Child sexual abuse in the Anglican Church: Hearings*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/investigation-into-failings-by-the-anglican-church?tab=hearing

⁷ *Seminar topics*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/all

⁸ *The Victims and Survivors' Forum*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/victims-and-survivors/attend-forum

3 Natur ac effeithiau cam-drin plant yn rhywiol

3.1 Beth yw cam-drin plant yn rhywiol?

Mae dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant wedi dweud wrth yr Ymchwiliad am y cam-drin a ddioddefwyd ganddynt.

Creulondeb, trais a bygythiadau

Gall cam-drin plant yn rhywiol fod yn greulon ac yn dreisgar yn aml, gan adael dioddefwyr â chleisiau, esgyrn wedi eu torri, llosgiadau ac anafiadau mewnol.

O mor ifanc ag y gall hi gofio a hyd nes ei bod yn un ar bymtheg oed, roedd mam Suzanne a theulu ei mam yn ei cham-drin 'ym mhob ffordd y gallent feddwl amdano'. O dair neu bedair oed, mae hi'n cofio cael ei churo 'mor galed na allai [hi] ei deimlo mwyach' ac o chwe mlwydd oed, dechreuodd ei thaid ar ochr ei mam ei cham-drin yn rhywiol. 'Roedd fy mywyd yn werth dim byd o gwbl' meddai.

Crynodeb dienw gan ddioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Camfanteisio ar fregusrwydd

Gall ymosodwyr dargeddu plant yn fwriadol y maent yn gwybod eu bod yn agored i niwed. Mae'r rhain yn cynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig neu anabledau, y rheiny sydd wedi dioddef trawma emosiynol a'r rheiny y mae eu hamgylchiadau yn eu gwneud yn agored i niwed (er enghraifft, plant mewn lleoliadau preswyl).

Mae Sarah yn cofio pa mor anodd oedd y cyfnod hwn yn ei bywyd, wrth ymdopi â cholled ei mam, y diffyg cynhesrwydd a hoffter a theimlo fel ei bod yn cael ei gadael allan o'r teulu. Dechreuodd ei llysfrawd ddangos sylw a hoffter tuag ati a, bellach, mae hi'n sylweddoli yr oedd yn ei pharatoi'n amhriodol, cyn ei cham-drin yn rhywiol.

Crynodeb dienw gan ddioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

Meithrin perthnasau amhriodol ac ennill ymddiriedaeth

Gall ymosodwyr ddylanwadu ar blant a meithrin perthynas amhriodol â nhw i ennill eu hymddiriedaeth a'u hufudd-dod. Mae rhai dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu dylanwadu i gamgymryd y cam-drin yn rhywiol a ddioddefwyd ganddynt am gariad. Mae rhai yn credu mai nhw oedd ar fai am y gamdriniaeth rywiol.

Yr hyn a oedd yn fy nharo i oedd, yn enwedig o ran peidio ag adrodd am gamdriniaeth, yw'r ffaith fod y goroeswr yn aml iawn yn teimlo mai'r unig unigolyn sy'n gofalu amdano yn y lle cyntaf yw'r person sy'n ei gam-drin.

Cyfranogwr, seminar y system cyfiawnder troseddol

Cam-drin ymddiriedaeth ac awdurdod

Gall cyflawnwyr ddefnyddio'u hawdurdod a'u statws i greu cyfleoedd i gam-drin. Gellir defnyddio enw da ac awdurdod i wro a thaflu amheuaeth ar gyhuddiadau os codir pryderon.

Roedd y person yr wyf wedi'i ddisgrifio yn uchel ei barch ac yn un o hoelion wyth y sefydliad lleol – yn Brifathro, Ynad Heddwch ac yn Saer Rhydd. Roedd yn gyfrinach agored ei fod yn ymyrryd â bechgyn yn ei ofal. Ond fel Jimmy Savile, fe guddiodd o fewn golwg amlwg. Byddai unrhyw un a allai fod wedi gwrthwynebu ei ymddygiad wedi cael y dasg frawychus o herio rhywun â ffrindiau pwerus a dylanwad sylweddol. Mae pob ymyrrwr plentyn yn berson gwarthus. Ond mae rhai yn bobl gwarthus mewn safleoedd uchel.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

3.2 Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol⁹

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed y gall cam-drin plant yn rhywiol gael canlyniadau eang a difrifol a all barhau trwy gydol oes oedolion.

Perthnasau

Gall cam-drin plant yn rhywiol gael effaith niweidiol ar y gallu i ffurfio a chynnal perthnasau agos a chariadus, ar adeg y cam-drin ac yn ddiweddarach mewn bywyd. Gall dioddefwyr a goroeswyr ei chael hi'n anodd siarad â phartneriaid, teulu a ffrindiau am y cam-drin rhywiol, gan atal eraill rhag gallu helpu a chynnig cefnogaeth.

A'r materion ynghylch ymddiriedaeth sydd wedi dod o hynny: roeddwn i'n casáu unrhyw un yn cyffwrdd â mi. Doeddwn i ddim yn gallu cofleidio fy mhlant...

Dioddefwr a goroeswr, Prosiect Gwirionedd

Lles emosiynol a iechyd meddwl

Gall niwed seicolegol camdriniaeth plant yn rhywiol fod o leiaf mor ddifrifol â'r effeithiau ffisegol. O gwmpas adeg cam-drin yn rhywiol, gall plant brofi ystod o emosiynau negyddol, gan gynnwys ofn, dicter, euogrwydd a beio'u hunain.^{10,11} Fel oedolion, gall dioddefwyr a goroeswyr ddioddef o hunan-barch isel a chyflyrau iechyd meddwl (fel iselder a meddyliau am hunanladdiad).

Mae ôl-fflachiau mor wirioneddol yn eich pen, roeddwn i'n gallu ei deimlo'n llythrennol ar fy mhen i ac yn gallu aroglu ei anadl, ac yn deffro a cheisio ei wthio i ffwrdd. Ac roedd hynny flynyddoedd wedyn.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd

⁹ *The impacts of child sexual abuse: A rapid evidence assessment.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/1534/view/IICSA%20Impacts%20of%20Child%20Sexual%20Abuse%20Rapid%20Evidence%20Assessment%20Full%20Report%20%28English%29.pdf

¹⁰ Foster JM and Hagedorn WB. (2014) Through the eyes of the wounded: a narrative analysis of children's sexual abuse experiences and recovery process. *Journal of Child Sexual Abuse* 23(5) 538-557

¹¹ *Making noise: Children's voices for positive change after sexual abuse.* University of Bedfordshire for the Children's Commissioner for England (2017) www.childrenscommissioner.gov.uk/wp-content/uploads/2017/06/UniBed_MakingNoise-20_4_17-1.pdf

Iechyd corfforol

Gall dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rhywiol yn blant fod yn fwy tebygol o gael iechyd corfforol gwael na'r rheiny sydd heb gael eu cam-drin. Gall plant ddioddef anafiadau corfforol yn ystod cam-drin rhywiol, ac amrywiaeth o afiechydon ac anabledau yn ddiweddarach mewn bywyd (er enghraifft, BMI uwch, cyflyrau'r galon a phroblemau o ran geni plant).

Wel, pan oeddwn i'n ifanc, gorddefnyddiais alcohol ac roedd gen i anhwylderau bwyta, sydd yn dal i fod yn anodd i mi, nid i'r un graddau, ond yr hyn maen nhw wedi'i greu ynof yw llawer o anoddefiadau ac anawsterau ynglŷn â bwyd. Nid ydw i'n gallu yfed alcohol o gwbl nawr oherwydd nad ydw i'n gallu ei fetaboli. A phethau eraill: mae fy iechyd corfforol i gyd wedi cael ei beryglu'n fawr mewn gwahanol ffyrdd ... ac mae fy nealltwriaeth o'r ffordd mae fy nghorff wedi cloi yn ymwneud yn fawr â'r ffaith fy mod yn dal rhywbeth i lawr nad oeddwn - ni allwn roi enw iddo ...

Tyst a chyn-blentyn mudol a anfonwyd i Dde Rhodesia yn y 1950au yn 9 oed

Crefydd a ffydd

Gall dioddefwyr a goroeswyr amau eu crefydd a'u credoau ysbrydol, yn enwedig os yw'r troseddwr yn gysylltiedig â'u crefydd neu eu ffydd. Gallant hefyd ddefnyddio crefydd a ffydd fel mecanwaith ymdopi ar gyfer cadernid a gwellhad.

Rydw i'n mynd i'r eglwys ac rwy'n gofyn am bŵer crefydd am help a chredwch fi mae'n broses araf iawn ar gyfer iachau.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

Addysg a bywyd diweddarach

Gall addysg ddarparu strategaeth ymdopi er mwyn i dioddefwyr a goroeswyr ddelio â'r cam-drin rhywiol y maent wedi ei ddioddef. I eraill, mae eu haddysg yn dioddef ac mae effaith ar eu rhagolygon cyflogaeth. O ganlyniad, mae cam-drin plant yn rhywiol yn gysylltiedig â mwy o ddiweithdra, mwy o dderbyn budd-daliadau'r wladwriaeth, llai o incwm a mwy o ansefydlogrwydd ariannol.

Mae gan gam-drin plant ganlyniadau pellgyrhaeddol gydol oes. Ar ôl cyfnod o dros flwyddyn o gam-drin rhywiol dro ar ôl tro gan bedofilydd a oedd yn ffugio bod yn ffrind i'r teulu, troiais yn berson swil tawedog mewndroëdig. Fe wnaeth hyn achosi imi gael fy mwlio yn yr ysgol lle wnes i hefyd dangyflawni ym mhob pwnc. Rwy'n dal i gael trafferth deugain mlynedd yn ddiweddarach, gyda dynion dwi ddim yn adnabod. Dydw i ddim yn hoffi cwmni dynion. Gwnaeth fy nhangyflawniad yn yr ysgol effeithio ar fy rhagolygon cyflogaeth a photensial ennill arian am weddill fy mywyd.

Dioddefwr a goroeswr, y Prosiect Gwirionedd ('Dweud eich dweud')

4 Ymatebion sefydliadau i gam-drin plant yn rhywiol

4.1 Astudiaeth achos i raglenni mudol plant (rhan o'r ymchwiliad 'Plant y tu allan i'r Deyrnas Unedig')

Cyn ac ar ôl yr Ail Ryfel Byd, roedd rhaglenni mudo plant yn cymryd plant o'u teuluoedd, eu cartrefi gofal a'u gofal maeth i sefydliadau neu deuluoedd dramor – yn bennaf i Awstralia, Canada, Seland Newydd a Rhodesia (ballach Zimbabwe).

Ystyriodd yr astudiaeth achos rhaglenni mudo plant a oedd sefydliadau yng Nghymru a Lloegr wedi cymryd digon o ofal i amddiffyn plant a anfonwyd dramor trwy'r rhaglenni mudo rhag cam-drin rhywiol ac os oeddent wedi ymateb yn ddigonol i honiadau o gam-drin. ystyriodd yr Ymchwiliad hefyd a ddarparodd y sefydliadau dan sylw unrhyw genogaeth neu iawndaliadau i gyn-blant mudol, ac a oedd y rhain yn ddigonol.¹²

Astudiaeth achos y rhaglenni mudo plant mewn ffigurau

- **3** gwrandawiaidau rhagarweiniol
- **20** diwrnod o wrandawiaidau cyhoeddus
- **7** cyfranogwr craidd
- **48** o dystion
- **32,180** o dudalennau o dystiolaeth wedi eu datgelu i gyfranogwyr craidd

Cynhaliwyd y gwrandawiad cyhoeddus ar y rhaglenni plant mudol yn Chwefror, Mawrth a Gorffennaf 2017. Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth y cafodd rhai plant mudol eu cam-drin yn rhywiol trwy gael eu treiddio, eu cyffwrdd yn amhriodol a'u gorfodi i gyffwrdd ag eraill. Dangosodd adroddiadau tystion hefyd fod plant yn cael eu cam-drin yn gorfforol, eu cam-drin yn emosiynol a'u hesgeuluso. Roedd ond ychydig o ffyrdd, os unrhyw ffyrdd o gwbl, o adrodd am gam-drin ac roedd plant yn byw mewn ofn y byddai dialau os byddent yn gwneud hynny.

Barn ddigamsyniol yr Ymchwiliad oedd mai Llywodraeth y DU oedd i'w beio'n bennaf am barhad rhaglenni mudo plant ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Gallai llywodraethau olynol y DU fod wedi cymryd camau ar rai adegau allweddol pan ddaethon nhw'n ymwybodol fod plant

¹² Protection of Children Outside the United Kingdom: Scope. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/the-protection-of-children-overseas?tab=scope

yn dioddef triniaeth wael a cham-drin, ond yn hytrach, caniatwyd i'r rhaglenni mudo barhau. Nid tan 2010 y derbyniodd Llywodraeth y DU gyfrifoldeb llawn am ei rhan mewn mudo plant.

Gwnaeth yr Ymchwiliad hefyd ganfyddiadau ac argymhellion o ran ymddiheuriadau sefydliadol i blant mudol, iawndaliadau ariannol i blant mudol sy'n goroesi a rheoli'r

cofnodion sy'n weddill. Mae rhagor o wybodaeth ar astudiaeth achos y rhaglenni mudo plant i'w gweld yn yr adroddiad llawn a gyhoeddwyd ym Mawrth 2018.¹³

Argymhellion

Ymddiheuriadau i gyn-blant mudol

Mae'r Cadeirydd a'r Panel wedi argymhell y dylai sefydliadau sy'n ymwneud â rhaglenni mudo plant nad ydynt wedi ymddiheuro am eu rôl ymddiheuro cyn gynted â phosib. Ni ddylid ymddiheuro drwy ddatganiadau cyhoeddus yn unig, ond yn benodol wrth y plant mudol hynny y buont yn gyfrifol am eu mudo.

Sefydlu cynllun iawndal ariannol i blant mudol gynt

Mae'r Cadeirydd a'r Panel wedi argymhell bod Llywodraeth y DU yn sefydlu cynllun iawndal ariannol i blant mudol gynt sy'n goroesi, gan ddarparu dyfarniad cyfartal i bob ymgeisydd. Mae hyn ar y sail eu bod nhw i gyd wedi bod yn agored i'r perygl o gam-drin rhywiol.

O ystyried oedran plant mudol gynt sy'n goroesi, anogwyd Llywodraeth y DU i sefydlu'r cynllun iawndal ariannol yn ddi-oed ac mae'n disgwyl y dylai'r taliadau ddechrau gael eu gwneud o fewn 12 mis (ar ôl cyhoeddiad yr adroddiad gwreiddiol), ac na roddir ystyriaeth i unrhyw daliadau iawndal eraill a wnaed mewn achosion penodol.

Rheoli cofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth am blant mudol gynt yn well

Mae'r Cadeirydd a'r Panel wedi argymhell y dylai'r holl sefydliadau a anfonodd blant dramor fel rhan o'r rhaglenni mudo plant sicrhau bod ganddynt systemau cadarn yn eu lle ar gyfer cadw a diogelu unrhyw gofnodion sy'n weddill a allai gynnwys gwybodaeth am blant ymfudol unigol, a dylent sicrhau eu bod yn gwbl hygyrch.

4.2 Cambridge House, Knowl View a Rochdale ('Rochdale') Ymchwiliad

Ystyriodd yr Ymchwiliad hostel Cambridge House ac ysgol breswyl Knowl View yn dilyn honiadau bod bechgyn yn cael eu cam-drin yn rhywiol yn y ddau sefydliad. Archwiliodd hefyd a oedd Cyngor Bwrdeistref Rochdale a sefydliadau eraill yn ymwybodol o'r honiadau ac a gymerwyd camau priodol mewn ymateb.¹⁴

¹³ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%20202018.pdf

¹⁴ *Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Scope*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/sexual-abuse-of-children-in-institutions-supervised-by-rochdale-borough-council?tab=scope

Ymchwiliad Rochdale mewn ffigurau

- **4** gwrandawiadau rhagarweiniol
- **14** diwrnod o wrandawiadau cyhoeddus
- **15** cyfranogwr craidd
- **51** o dystion
- **19,669** o dudalennau o dystiolaeth a ddatgelwyd i gyfranogwyr craidd

Cynhaliwyd gwrandawriad cyhoeddus cyntaf ymchwiliad Rochdale yn Hydref 2017. Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth bod bechgyn o Cambridge House wedi cael eu cam-drin yn rhywiol, a bod y cam-drin wedi digwydd dan gochl arholiadau meddygol a chamau disgyblu.

Clywodd yr Ymchwiliad hefyd fod bechgyn yn Knowl View yn cael eu cam-drin yn rhywiol yn yr ysgol gan nifer o droseddwyr. Mor ddiweddar â'r 1990au cynnar, roedd bechgyn yn Knowl View hefyd yn cael eu cam-drin mewn mannau eraill yn Rochdale, gan gynnwys y toiledau cyhoeddus yn uniongyrchol ar draws y ffordd o swyddfeydd Gwasanaethau Cymdeithasol Rochdale.

Roedd yr ysgol, yr heddlu, ac adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg Cyngor Bwrdeistref Rochdale yn ymwybodol o gamfanteisio yn rhywiol ar fechgyn o Knowl View. Darganfu'r Ymchwiliad y caniatwyd i gamfanteisio ar y plant hyn barhau oherwydd nad oedd y rheiny a oedd yn gyfrifol am eu lles naill ai'n gweld y plant yn ddiodefwrwr neu'n teimlo ei fod yn codi materion a oedd yn rhy anodd neu'n anghyfforddus i'w hwynebu.

Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth fod Cyril Smith yn ymwneud yn fawr â Cambridge House ac i raddau llai ag ysgol Knowl View. Ni ddarganfyddodd yr Ymchwiliad dystiolaeth fod Cyril Smith wedi defnyddio ei sefyllfa i ddylanwadu neu osgoi erlyniad. Serch hynny, dyfarnodd ei fod yn fodlon perswadio cyhuddwyr i gadw'n dawel, a bod amharodrwydd i ystyried y gallai rhywun o amlygrwydd cyhoeddus allu bod yn gyfrifol am gam-drin plant yn rhywiol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn adroddiad ymchwiliad Rochdale a gafodd ei gyhoeddi ym Mawrth 2018.¹⁵

4.3 Astudiaeth achos i Gynulleidfa Fenedictaidd Lloegr (rhan o ymchwiliad 'Yr Eglwys gatholig Rufeinig')

Mae archwiliad yr Ymchwiliad i'r Eglwys Gatholig Rufeinig yn archwilio sut y mae wedi ymdrin â honiadau ac amheuon o gam-drin plant yn rhywiol.¹⁶

Cafodd gwrandawriad cyhoeddus cyntaf yr ymchwiliad ar Gynulleidfa Fenedictaidd Lloegr ei gynnal yn Nhachwedd a Rhagfyr 2017, ac ymchwiliodd i ddau abaty: Ampleforth a Downside – mae gan y ddau ohonynt ysgolion preswyl preifat lle codir ffioedd yn gysylltiedig â hwy.

¹⁵ Cambridge House, Knowl View and Rochdale: Investigation report. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5322/view/Cambridge%20House%2C%20Knowl%20View%20and%20Rochdale%20Investigation%20Report%20April%202018.pdf

¹⁶ Child sexual abuse in the Roman Catholic Church: Scope. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/investigation-into-failings-by-the-catholic-church?tab=scope

Mae'r ddwy ysgol wedi bod yn destun pryderon am gam-drin disgyblion yn rhywiol ac mae'r astudiaeth achos hon yn archwilio a gymerodd yr ysgolion gyfrifoldeb dros ddiogelu plant a'u hamddiffyn rhag cam-drin rhywiol. Mae hefyd yn edrych ar ymdrechion Cynulleidfa Fenedictaidd Lloegr i archwilio, dysgu gwersi a gweithredu newidiadau mewn ymateb i honiadau o gam-drin plant yn rhywiol.

Gwrandawriad Cynulleidfa Fenedictaidd Lloegr ar ysgolion Ampleforth a Downside mewn ffigurau

- **3** gwrandawriadau rhagarweiniol
- **14** diwrnod o wrandawriadau cyhoeddus
- **16** cyfranogwr craidd
- **63,095** o dudalennau o dystiolaeth a ddatgelwyd i gyfranogwyr craidd

Mae'r Ymchwiliad yn dal i ystyried ei ganfyddiadau ynglŷn â'r gwrandawriad cyhoeddus hwn a bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi mewn adroddiad archwiliad ar wahân yn ddiweddarach eleni.

4.4 Astudiaeth achos i Esgobaeth Chichester (rhan o ymchwiliad 'Yr Eglwys Anglicanaidd')

Mae archwiliad yr Ymchwiliad i'r Eglwys Anglicanaidd yn archwilio sut mae sefydliadau wedi diogelu plant rhag rhag camdriniaeth rywiol yn Eglwys Lloegr a'r Eglwys yng Nghymru.¹⁷

Cynhaliwyd y gwrandawriad cyhoeddus cyntaf ar yr ymchwiliad ym Mawrth 2018, ac archwiliodd y diwylliant yn Esgobaeth Chichester a'r effaith a gafodd hyn ar ddiogelu plant; sut mae arferion a gweithdrefnau ar gyfer ymateb i bryderon a diffygion mewn arferion diogelu wedi newid dros amser; sut mae'r Eglwys yn rheoli recriwtio, dyrchafu, ymddiswyddo a chamau disgyblu; ac a yw dioddefwyr a goreswyr wedi derbyn iawndaliadau.

Gwrandawriad Esgobaeth Chichester mewn ffigurau

- **4** gwrandawriadau rhagarweiniol
- **14** diwrnod o wrandawriadau cyhoeddus
- **41** cyfranogwr craidd
- **57,795** o dudalennau o dystiolaeth a ddatgelwyd i gyfranogwyr craidd

Mae'r Ymchwiliad yn ystyried ei ganfyddiadau ar astudiaeth achos Esgobaeth Chichester a bydd yn eu cyhoeddi ar ddyddiad diweddarach.

¹⁷ *Child sexual abuse in the Anglican Church: Scope*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/investigation-into-failings-by-the-anglican-church?tab=scope

5 Ymarfer presennol i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol

Mae'r Ymchwiliad wedi ymgymryd ag ystod o waith i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth am sut mae sefydliadau ar hyn o bryd yn atal ac yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi gwaith yr Ymchwiliad hyd yma ar y rhynggrwyd, cyfiawnder troseddol a sifil, a'r sector iechyd.

5.1 Y rhynggrwyd

Mae ymchwiliad 'Y Rhynggrwyd a cham-drin plant yn rhywiol' yn archwilio sut mae sefydliadau wedi ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant sy'n cael eu hwyluso gan y rhynggrwyd.¹⁸ Mae hyn yn cynnwys cam-drin rhywiol sy'n cynnwys rhannu delweddau o gam-drin plant yn rhywiol, gwyltio neu gyfarwyddo cam-drin rhywiol ar-lein, magu perthynas amhriodol, 'secstio' ac unrhyw ffyrdd eraill o ddefnyddio'r rhynggrwyd i hwyluso cam-drin plant yn rhywiol.

Archwiliodd y gwrandawriad cyhoeddus rhagarweiniol cyntaf yn yr ymchwiliad sut y mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a hwylusir gan y rhynggrwyd. Hefyd, comisiynodd yr Ymchwiliad dri adolygiad o'r dystiolaeth sy'n bodoli i lywio ymchwiliad y rhynggrwyd, ac mae hefyd wedi siarad â phlant a phobl ifanc am gam-drin plant yn rhywiol ar-lein ac am aros yn ddiogel ar-lein.

Mae ymchwil ar raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn ei gwneud hi'n glir ei bod yn broblem gymhleth a chynyddol.¹⁹ Mae heddluoedd wedi gweld cynnydd o 700% mewn atgyfeiriadau ers 2012-13 a derbyniodd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol cyfartaledd o 3,500 o atgyfeiriadau y mis erbyn diwedd Awst 2016 (cynnydd o tua 400 o atgyfeiriadau a dderbyniwyd y mis yn 2010). Gall atgyfeiriadau gynnwys delweddau o gam-drin plant yn rhywiol a geir ar-lein, delweddau sy'n mynd yn 'firal' (er enghraifft, delweddau sy'n cael eu rhannu wrth i bobl wylltio am yr hyn maent wedi'i weld) a delweddau nad ydynt, wedi ymchwiliad, yn cael eu hystyried i fod yn ddelweddau o blant.

Clywodd yr Ymchwiliad dystiolaeth hefyd am yr heriau sylweddol i asiantaethau gorfodi wrth fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar-lein, gan gynnwys y defnydd soffistigedig o dechnoleg gan y sawl sy'n gyfrifol er mwyn osgoi darganfyddiad.

¹⁸ *The internet and child sexual abuse: Scope*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/investigations/child-sexual-abuse-facilitated-by-the-internet?tab=scope

¹⁹ *Quantifying online facilitated child sexual abuse*. University of Huddersfield for the Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/3722/view/Rapid%20Evidence%20Assessment%20Quantifying%20The%20Extent%20Of%20Online%20Facilitated%20Child%20Sexual%20Abuse.pdf

Wrth i'r ymchwiliad fynd yn ei flaen, bydd yr Ymchwiliad yn edrych i mewn i'r hyn y mae awdurdodau statudol a'r diwydiant rhyngwyd yn ei wneud i amddiffyn plant ar-lein. Bydd hefyd yn edrych ar ymatebion y diwydiant rhyngwyd i gam-drin plant yn rhywiol ar-lein.

5.2 Cyfiawnder troseddol

Mae'r Ymchwiliad wedi casglu gwybodaeth a barn am sut mae sefydliadau yn y system cyfiawnder troseddol yn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Mae dau seminar wedi cael eu cynnal, un am ymatebion i gam-drin plant yn rhywiol gan sefydliadau yn y system cyfiawnder troseddol ac ail un am iawndal am anafiadau troseddol.^{20, 21}

Yn ystod y seminar gyntaf, clywodd yr Ymchwiliad y gall dioddefwyr a goroeswyr wynebu taith ofidus a hir trwy'r system cyfiawnder troseddol oherwydd ei gymhlethdodau. Cododd cyfranogwyr broblemau gyda chyflwyno hawliadau o dan God y Dioddefwyr²² ac, o ganlyniad, mae'r Ymchwiliad wedi gwneud argymhellion yn ymwneud â sut y gweithredir Cod y Dioddefwyr.

Roedd y seminar iawndal anafiadau troseddol yn rhan o archwiliad 'Atebolrwydd ac iawndaliadau' yr Ymchwiliad. Nododd y cyfranogwyr y gellir gwrthod iawndal i ddioddefwyr a goroeswyr trwy'r Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol cenedlaethol oherwydd nifer o amodau cymhwyster sydd (neu oedd) ar waith. Mae'r Ymchwiliad o'r farn fod rhai o'r amodau hyn yn annheg i ddioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant. Mae wedi gwneud argymhellion i fynd i'r afael â hyn.

Argymhellion

Côd y Dioddefwyr

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol yn cynnal archwiliad ar y cyd o gydymffurfiaeth asiantaethau â Chod y Dioddefwyr o ran dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant.

Dylid ymgynghori â'r Comisiynydd Dioddefwyr ar ymagwedd yr arolygiad i sicrhau ei bod yn cael ei lywio'n llawn gan brofiadau dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant.

Cynllun Iawndal Anafiadau Troseddol

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn diwygio rheolau'r Awdurdod Iawndal Anafiadau Troseddol (CICA), fel nad yw gwobrau'n cael eu gwrthod yn awtomatig mewn amgylchiadau lle mae euogfarnau troseddol ymgeisydd yn debygol o fod yn gysylltiedig â'u camdriniaeth rywiol yn blentyn. Dylid ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau.

²⁰ *The criminal justice system*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/criminal-justice-system

²¹ *Criminal injuries compensation*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/criminal-injuries-compensation

²² *Code of Practice for Victims of Crime*. Ministry of Justice. www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/476900/code-of-practice-for-victims-of-crime.PDF

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod CICA yn sicrhau bod hawliadau sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn cael eu hystyried yn unig gan weithwyr achos sydd â hyfforddiant penodol a manwl yn natur ac effaith cam-drin plant yn rhywiol.

Mae'r Cadeirydd a Phanel yn argymhell bod y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn adolygu rheolau CICA fel bod pob ymgeisydd a wnaeth gais am iawndal o'r blaen mewn perthynas â cham-drin rhywiol pan oedd yn blentyn – ond a wrthodwyd ar sail y rheol 'un to' yn unig – yn cael yr hawl i ailgeisio am iawndal a chael eu hawliad wedi ei gymeradwyo gan CICA.

5.3 Cyfiawnder sifil

Mae'r ymchwiliad 'Atebolrwydd ac iawndaliadau' hefyd yn archwilio os yw'r system cyfiawnder sifil yn gweithio'n effeithiol ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant. Cynhaliodd yr Ymchwiliad seminar yn Nhachwedd 2016 ynghylch y sytem cyfiawnder sifil.²³

Trafododd y cyfranogwyr yn y seminar y rhwystrau gwahanol rhag cyfiawnder yn ôl profiad ddiodeffwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant. Mae'r rhain yn cynnwys cost, y nifer cyfyngedig o gyfreithwyr â'r profiad a pharodrwydd i gymryd yr achosion hyn, ac anawsterau ymarferol mewn adnabod diffinyddion a'u hyswirwyr. Mae'r Ymchwiliad wedi gwneud argymhelliaid i gynorthwyo hawlwrwyr posibl mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddod a hawliad.

Mae'r Ymchwiliad hefyd wedi nodi nad yw'r amrediad o fesurau a gynlluniwyd i helpu tystion sy'n agored i niwed i ddarparu tystiolaeth mewn llysoedd troseddol yn cael eu cynnig i ddiodeffwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant mewn achosion sifil. Mae'n argymhell y dylid mynd i'r afael â'r mater hwn.

Argymhellion

Cofrestr yswirwyr atebolrwydd cyhoeddus

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Cymdeithas Yswirwyr Prydain (CYP) yn ystyried a ellid cyflwyno cofrestr o yswirwyr atebolrwydd cyhoeddus i gynorthwyo hawlwrwyr i leoli'r yswirwyr sy'n berthnasol i'w hawliad, a sut y byddai'n gweithredu.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod CYP yn nodi ei ystyriaeth o'r mater ac at ba gasgliadau y mae wedi'u cyrraedd mewn diweddariad ysgrifenedig o fewn 12 mis o gyhoeddi'r adroddiad hwn.

Amddiffyniadau arbennig ar gyfer tystion sy'n agored i niwed

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu deddfwriaeth sylfaenol fel bod diodeffwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant mewn achosion llys sifil, lle maent yn hawlio iawndal sy'n ymwneud â'r gamdriniaeth a ddiodeffwyd, yn cael yr un diogelwch â thystion sy'n agored i niwed mewn achosion llys troseddol.

²³ *The civil justice system*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/civil-justice-system

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn deall bod y gost eisoes yn rhwystr i ddiodefwyr a goroeswyr sy'n ystyried hawliad sifil. Wrth ystyried sut i ariannu gweithrediad yr argymhelliad hwn, mae'n rhaid i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau nad yw'r rhwystr hwn yn cynyddu ymhellach.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai'r Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Sifil ddiwygio'r Rheolau Gweithdrefnau Sifil i sicrhau bod ynadon sy'n llywyddu achosion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol yn ystyried y defnydd o amddiffyniadau i dystion sy'n agored i niwed.

5.4 Y sector iechyd

Ym mis Gorffennaf 2017, ceisiodd yr Ymchwiliad wybodaeth yn ysgrifenedig gan tua 50 o sefydliadau'r sector iechyd ynghylch y mesurau sydd yn eu lle i atal cam-drin plant yn rhywiol mewn lleoliadau gofal iechyd, megis ysbytai, meddygfeydd a chlinigau. Trafodwyd y materion a godwyd mewn cyflwyniadau ysgrifenedig yn ddiweddarach mewn seminar dau ddiwrnod a ddigwyddodd ym Medi 2017.²⁴

Mewn cyflwyniadau ysgrifenedig ac yn y seminar, clywodd yr Ymchwiliad sut y gellid gwella'r trefniadau presennol i ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol yn y sector iechyd. Roedd y drafodaeth yn cynnwys digonolrwydd yr hyfforddiant presennol, y rhwystrau sy'n atal pryderon ynglŷn â cham-drin plant yn rhywiol i gael eu codi a bregusrwydd plant wrth dderbyn triniaeth ar wardiau oedolion.

Codwyd y rhan bwysig mae gwarchodwyr yn chwarae hefyd. Mae gwarchodwyr yn arsylwi gofal a thriniaeth, ac yn ymyrryd os oes ganddynt bryderon am ddiogelwch neu les claf. Mae'r Ymchwiliad wedi cadarnhau nad yw polisiau cenedlaethol ar gyfer defnyddio gwarchodwyr yn y GIG a gwasanaethau gofal iechyd eraill yng Nghymru a Lloegr ar gael. O ganlyniad, mae'r Ymchwiliad wedi argymhell bod polisiau cenedlaethol yn cael eu gyflwyno i helpu i wella cysondeb ac ansawdd gwarchod.

Argymhellion

Lloegr

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datblygu polisi cenedlaethol ar gyfer hyfforddi a defnyddio gwarchodwyr wrth drin plant mewn gwasanaethau gofal iechyd.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Y Comisiwn Ansawdd Gofal yn ystyried cydymffurfiaeth â pholisiau gwarchodwr cenedlaethol (unwaith y gweithredir) yn ei asesiadau o wasanaethau.

Cymru

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu polisi cenedlaethol ar gyfer hyfforddi a defnyddio gwarchodwyr wrth drin plant mewn gwasanaethau gofal iechyd.

²⁴ *The health sector*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/health-sector

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried cydymffurfiaeth â pholisïau gwarchodwr cenedlaethol (unwaith y gweithredir) yn ei asesiadau o wasanaethau.

6 Themâu sy'n dod i'r amlwg

Mae'r Ymchwiliad wedi ystyried y gwaith yr ymgerodd ag ef hyd yn hyn yn erbyn pedair thema strategol allweddol – diwylliannol, proffesiynol a gwleidyddol, strwythurol ac ariannol.²⁵ Mae'r themâu hyn yn caniatáu i'r Ymchwiliad ddod i gasgliadau ehangach am beth sydd angen ei wneud i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin plant yn rhywiol a'i helpu i adnabod materion allweddol i'w harchwilio wrth i'r gwaith barhau.

6.1 Diwylliannol

Siaradir am a deallir cam-drin plant yn rhywiol mewn gwahanol ffyrdd. Cynhaliodd yr Ymchwiliad seminar i archwilio agweddau cymdeithasol a gwleidyddol tuag at gam-drin plant yn rhywiol²⁶, a chyhoeddodd ddaansoddiad o ymchwil sy'n bodoli i gefnogi'r seminar.²⁷

Roedd cyfranogwyr y seminar yn glir fod yr iaith a ddefnyddir gan gymdeithas a'i ddealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol yn cael effaith uniongyrchol ac ymarferol ar y ffordd y mae dioddefwyr a goroeswyr a throeddwy'r yn cael eu trin gan gymdeithas a sefydliadau. Amlygwyd iaith fel 'puteindra plant', 'ymddygiad peryglus' ac 'anlladrwydd' gan gyfranogwyr y seminar i fod yn niweidiol i ddioddefwyr a goroeswyr, ac o ganlyniad maent yn teimlo eu bod ar fai am y gamdriniaeth, yn hytrach na bod yn ddioddefwyr gweithredoedd troseddol difrifol. Mae'r defnydd o ymadroddion fel 'gold-digger' a 'ffantasiwr' yn effeithio ar ganfyddiad a hygrededd oedolion sydd wedi goroesi camdriniaeth rywiol yn blant.

Yr ieithwedd i gyd... – dewisiadau gweithredol ffordd o fyw; rhoi eich hun mewn perygl; puteinio eich hun – rydym yn dal i'w glywed drwy'r amser heddiw.

Seminar cyfrangowr a naratifau cymdeithasol a gwleidyddol

Nododd nifer o gyfranogwyr hefyd y dylai'r gymdeithas fynd i'r afael â'i hamharoddrwydd i drafod cam-drin plant yn rhywiol yn agored ac yn blaen i helpu ei ddeall yn well.

Mae'r Ymchwiliad yn cytuno bod diffyg trafodaeth agored am gam-drin plant yn rhywiol ac mae wedi gweld yr amharoddrwydd hwn i siarad amdano yn uniongyrchol trwy ei waith. Er enghraifft, canfu arolwg cynrychioliadol a gwblhawyd gan yr Ymchwiliad ar ymwybyddiaeth y cyhoedd a dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol nad oedd mwy na dau draean o'r 2,040 o oedolion a holwyd yn teimlo'n gyfforddus wrth drafod cam-drin plant yn rhywiol, hyd yn oed â'r rheiny yr oeddent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt. Yn yr un modd, wrth geisio caniatâd ar gyfer hysbysebu radio i godi ymwybyddiaeth ar gyfer Prosiect Gwirionedd, cyfarfu'r Ymchwiliad â phryderon ynghylch codi mater cam-drin plant

²⁵ *Statement from the Chair: Update on the internal review of the Inquiry by Professor Alexis Jay.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/news/statement-chair

²⁶ *Social and political narratives about child sexual abuse.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse. www.iicsa.org.uk/research-seminars/social-and-political-narratives-about-child-sexual-abuse

²⁷ *Deflection, denial and disbelief: social and political discourses about child sexual abuse and their influence on institutional responses.* Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) [www.iicsa.org.uk/key-documents/3848/view/Social%20and%20political%20discourses%20about%20child%20sexual%20abuse%20and%20their%20influence%20on%20institutional%20responses%20\(full%20report\).pdf](http://www.iicsa.org.uk/key-documents/3848/view/Social%20and%20political%20discourses%20about%20child%20sexual%20abuse%20and%20their%20influence%20on%20institutional%20responses%20(full%20report).pdf)

yn ystod amser gyrru pan fyddai plant yn gwranddo. Mae ymgyrch 'Talk PANTS' yr NSPCC yn dangos y gellir cyflwyno negeseuon am gam-drin plant yn rhywiol mewn modd deallus a hygyrch.

... oni bai ein bod yn dod o hyd i ffordd o adael y goleuni i mewn ym mhobman, a galluogi pobl ifanc i siarad am sut mae bywyd iddyn nhw, yna bydd pobl wastad yn dod o hyd i ffordd o fanteisio ar y tywyllwch hwnnw a chadw'r gweithgarwch [rhywiol] hwnnw i ffwrdd o lygaid prysur pobl a allai wneud rhywbeth amdano.

Seminar cyfranogwr, disgyrsiau cymdeithasol a gwleidyddol

Mae'r Ymchwiliad o'r farn y bydd plant yn cael eu hamddiffyn yn well rhag cam-drin rhywiol os yw'r gymdeithas yn barod i drafod y mater yn agored ac yn blaen. Dylai trafodaethau gydnabod bod cam-drin plant yn rhywiol yn cymryd llawer o ffurfiau ac yn gallu effeithio ar bob cymuned, a bod gwahanol blant yn wynebu gwahanol beryglon. Gall ddod â hyn i sylw'r gymdeithas wella ei dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol, a'i helpu i gymryd camau i amddiffyn plant yn well. Os yw'r gymdeithas yn gwella ei dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol ac yn ei drafod yn agored ac yn blaen, mae'r camau cywir gan sefydliadau'n fwy tebygol o ddilyn.

Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i ystyried sut y gellir cefnogi newid mewn diwylliant, ond mae'n cydnabod bod rhaid i sefydliadau â chyfrifoldeb i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol chwarae rhan allweddol. Trafodir pwysigrwydd arweinyddiaeth yn y sefydliadau hynny yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

6.2 Proffesiynol a gwleidyddol

Mae'n amlwg bod ansawdd yr arweinyddiaeth a'r arfer mewn sefydliadau yn hanfodol i amddiffyn plant, ac atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddo. Yn yr adran 'Ddiwylliannol', cyfeiriodd yr Ymchwiliad at yr angen i arweinwyr mewn sefydliadau chwarae rôl allweddol wrth helpu i wella diwylliant o ran cam-drin plant yn rhywiol. Mae trafodaeth agored ac onest am gam-drin plant yn rhywiol yn gofyn am arweinyddiaeth agored a gonest.

Serch hynny, ar draws ei waith hyd yma, mae'r Ymchwiliad wedi gweld enghreifftiau o sefydliadau sydd â diffyg arweinyddiaeth agored a gonest. Er enghraifft, ni chymerodd Llywodraeth y DU – a ddylai osod esiampl i eraill ei ddilyn – gyfrifoldeb llawn am sawl degawd am ei methiannau mewn perthynas â'r rhaglenni mudo plant.²⁸ Yn ystod ei archwiliad o sefydliadau yn Rochdale, clywodd yr Ymchwiliad fod uwch arweinwyr yn gwadu unrhyw gyfrifoldeb am ddiffyg ymateb effeithiol i gamdriniaeth rywiol bechgyn bregus. Roedd hyn er gwaethaf tystiolaeth ddigamsyniol a thystiolaeth yn dangos eu bod yn ymwybodol bod cam-drin yn digwydd.²⁹

²⁸ *Child migration programmes: Investigation report*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/4265/view/Child%20Migration%20Programmes%20Investigation%20Report%20March%202018.pdf

²⁹ *Cambridge House, Knowl View and Rochdale*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2018) www.iicsa.org.uk/key-documents/5322/view/Cambridge%20House%20Knowl%20View%20and%20Rochdale%20Investigation%20Report%20April%202018.pdf

Nid yw'r Ymchwiliad yn ystyried bod y rhain yn enghreifftiau unigryw. Mae cyfranogwyr yn y Prosiect Gwirionedd wedi datgan yn aml bod sefydliadau'n gwadu cyfrifoldeb am y cam-drin a ddiodefwyd ganddynt, neu ymwybyddiaeth ohono.^{30, 31} Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i ystyried materion sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth ac arfer mewn sefydliadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen, ond mae dwy ardal lle gellir cyflwyno newidiadau yn awr.

Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU chwarae rhan bwysig mewn arwain newid diwylliant ac arddangos blaenoriaeth a phwysigrwydd trechu cam-drin plant yn rhywiol trwy ei gweithredoedd. Felly, fel argymhelliad cyntaf, mae'r Ymchwiliad o'r farn y dylai Llywodraeth y DU gadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant yn erbyn Camfanteisio Rhywiol a Cham-drin yn Rhywiol (a elwir hefyd yn 'Gonfensiwn Lanzarote'), sy'n nodi'r ystod eang o fesurau y mae'n rhaid eu rhoi ar waith i ddiogelu plant rhag cam-drin rhywiol ar lefel ryngwladol.

Bwriad yr ail argymhelliad yw cefnogi newid diwylliant o fewn gwasanaeth yr heddlu o ran cam-drin plant yn rhywiol. Mae'n rhaid i newid diwylliant gael ei yrru gan arweinyddiaeth gref, felly mae'r Ymchwiliad o'r farn y dylai pawb sy'n dymuno gael swyddi arwain uwch allu dangos eu dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol.

Argymhellion

Cadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant yn erbyn Camfanteisio Rhywiol a Cham-drin yn Rhywiol (a elwir hefyd yn 'Confensiwn Lanzarote')

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Llywodraeth y DU yn cadarnhau Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant yn erbyn Camfanteisio'n Rhywiol ar blant a Cham-drin yn Rhywiol ('Confensiwn Lanzarote') heb oedi ychwanegol. Maent hefyd yn argymhell y dilynir y cadarnhad hwn, ac eto heb oedi pellach, gan gamau i roi Confensiwn Lanzarote ar waith.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Swyddfa Gartref, fel adran arweiniol Llywodraeth y DU, yn cyhoeddi amserlen ar gyfer cadarnhau Confensiwn Lanzarote, gan gymryd unrhyw gamau ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn i'r DU gydymffurfio'n llawn erbyn Mehefin 2018.

Newid diwylliant yn y gwasanaeth heddlu

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai fod yn ofynnol i unrhyw swyddog heddlu (neu staff sy'n gyfwerth) sydd am symud ymlaen i gnewyllyn y Prif Swyddog yn gyntaf:

- gael profiad plismona gweithredol mewn atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddo, a
- chyflawni achrediad yn rôl y gwasanaeth heddlu wrth atal cam-drin plant yn rhywiol ac ymateb iddo.

³⁰ *Truth Project: Experiences shared - victims and survivors speak out*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2016) www.iicsa.org.uk/key-documents/923/view/truth-project-experiences-shared.pdf

³¹ *Victim and survivor voices from the Truth Project*. Independent Inquiry into Child Sexual Abuse (2017) www.iicsa.org.uk/key-documents/3304/view/Victim%20and%20survivor%20voices%20from%20the%20Truth%20Project.pdf

Dylai'r Swyddfa Gartref newid gofynion mynediad gan ddefnyddio ei bwerau o dan Reoliadau'r Heddlu 2003 i gyflawni hyn.

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Coleg Plismona'n datblygu cynnwys hyfforddiant a threfniadau achredu.

6.3 Strwythroll

Mae amrywiaeth o drefniadau deddfwriaethol a rheoliadol yn eu lle er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol ac ymateb yn briodol pan fydd cam-drin yn digwydd. Mae'r adran hon yn disgrifio'r fframweithiau deddfwriaethol a rheolaethol eraill a nodwyd yn fwyaf cyson drwy waith yr Ymchwiliad hyd yn hyn.

Rheoli'r gweithlu

Mae'n hollbwysig bod sefydliadau'n sicrhau bod y rheiny sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli o fewn ei weithlu yn addas ar gyfer y gwaith maent yn ei wneud ac nid ydynt yn peri risg i blant. Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i ystyried y materion hyn, ond ceir dwy ardal lle ystyrir y dylid cymryd camau yn awr.

Mae'r Ymchwiliad wedi nodi bod plant mewn lleoliadau preswyl yn arbennig o agored i gam-drin gan oedolion sy'n gweithio yn y lleoliadau hynny ac sy'n gyfrifol am eu lles. Serch hynny, nid oes unrhyw ofynion o ran cofrestriad proffesiynol ar waith i staff, ar wahân i weithwyr cymdeithasol, sy'n gweithio mewn cartrefi i blant yn Lloegr, sy'n wahanol i yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae absenoldeb cofrestriad proffesiynol i'r rheiny sy'n gweithio mewn rolau gofalu mewn cartrefi i blant yn Lloegr yn destun pryder i'r Ymchwiliad. Mae'n argymhell, felly, fod yr Adran Addysg yn mynd i'r afael â hyn.

Yn ail, mae'r Ymchwiliad o'r farn y dylid gwella trefniadau gwirio a gwahardd yng Nghymru ac yn Lloegr. Rheolir hyn gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) sy'n ystyried addasrwydd unigolion i weithio gyda phlant. Serch hynny, nid yw'n ofynnol i sefydliadau sy'n gyfrifol am gynnal cofrestrau proffesiynol hysbysu'r GDG bod gweithiwr proffesiynol wedi cael ei dynnu oddi ar eu cofrestr. Os nad yw'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r GDG, yna mae'r GDG yn methu â phennu a ddylai gweithiwr proffesiynol gel ei wahardd rhag gweithio neu wirfoddoli yn y proffesiwn hwnnw - neu unrhyw weithgaredd rheoledig arall sy'n ymwneud â phlant.

Fel mater o egwyddor, mae'r Ymchwiliad yn argymhell y dylai fod dyletswydd cyfreithiol ar y sefydliadau hynny sy'n cadw cofrestrau proffesiynol i rannu gwybodaeth â'r GDG pan fydd unigolyn wedi'i wahardd o'r gofrestr oherwydd ei fod yn peri risg i blant. Mae'r Ymchwiliad hefyd o'r farn y dylai'r GDG - ar ôl derbyn gwybodaeth o'r fath gan sefydliad - wahardd y gweithiwr proffesiynol dan sylw rhag gweithio gyda phlant yn awtomatig (nad yw'n ofynnol i'w wneud ar hyn o bryd). Mae hyn yn amodol ar unrhyw sylwadau y byddai'r unigolyn yn dymuno eu gwneud i'r GDG os oeddent yn ystyried gwaharddiad rhag gweithio gyda phlant i fod yn anghymesur neu'n annheg.

Ymateb i gam-drin plant yn rhywiol

Mae dioddefwyr a goroeswyr wedi dweud wrth yr Ymchwiliad am yr ymatebion y maent wedi'u derbyn ar ôl adrodd am y cam-drin a ddioddefwyd ganddynt – yn aml fel goroeswr aeddfed, flynyddoedd lawer ar ôl cael eu cam-drin. Wrth reswm, maent yn disgwyl i sefydliad gymryd cyfrifoldeb am ei ymddygiad, heb ystyried faint o amser sydd wedi mynd heibio.

Mae gwaith yr Ymchwiliad wedi ei arwain i ystyried sut y mae heddluoedd yn ymateb i gwynion ynghylch sut y maent wedi ymchwilio i gam-drin plant yn rhywiol. Dylai heddluoedd ymdrin â phob cwyn am ymddygiad swyddogion yr heddlu yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)³² ac yn seiliedig ar reoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.³³

Mae'r Ymchwiliad yn ymwybodol bod gweithredu ar sail y canllawiau hyn wedi arwain at gŵyn am ddiystyru ymchwiliad i gam-drin plant yn rhywiol oherwydd yr amser a aeth heibio ers i'r gamdriniaeth rywiol ddigwydd. Oherwydd y gall dioddefwyr a goroeswyr gymryd blynyddoedd os nad degawdau i ddatgelu'r gamdriniaeth a ddioddefwyd ganddynt, nid yw'r Ymchwiliad yn ystyried hyd yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r cam-drin ddigwydd yn rheswm dilys i beidio ag ymchwilio i gŵyn ynghylch ymchwiliad i gam-drin plant yn rhywiol. Mae wedi argymhell na ddylai'r gwasanaeth heddlu ddefnyddio hwn mwyach fel rheswm i beidio ag ymchwilio i gŵyn.

Mynediad i gofnodion gan ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol

Mae'n bwysig bod gan ddioddefwyr a goroeswyr fynediad i gofnodion yn ymwneud â'u plentyndod fel y gallant ddeall sut y gallai'r camdriniaeth a ddioddefwyd fod wedi digwydd neu pam y caniatwyd iddo barhau. Fodd bynnag, mae rhai dioddefwyr a goroeswyr yn cael anawsterau wrth geisio cael mynediad i'r cofnodion hyn.

Mae rheoli cofnodion yn faes technegol a chymhleth ym mholisi cyhoeddus gan fod rheolau gwahanol ar gyfer cadw cofnodion ar draws sefydliadau gwahanol. Bydd yr Ymchwiliad yn ystyried os gall argymhell newidiadau a fyddai'n fuddiol i ddioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant.

Argymhellion

Sicrhau bod staff gofal sy'n gweithio mewn cartrefi plant wedi'u cofrestru'n broffesiynol

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod yr Adran Addysg yn cyflwyno trefniadau ar gyfer cofrestru staff sy'n gweithio mewn rolau gofal mewn cartrefi plant.

Dylid cofrestru gyda chorff annibynnol sy'n gyfrifol am osod a chynnal safonau hyfforddiant, ymddygiad a datblygiad proffesiynol parhaus, ac sydd â'r grym i orfodi'r rhain drwy weithdrefnau addasrwydd i ymarfer.

³² *Statutory guidance to the police service on the handling of complaints*. Independent Police Complaints Commission (2015) https://policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/statutoryguidance/2015_statutory_guidance_english.pdf

³³ *Police Reform Act 2002*. www.legislation.gov.uk/ukpga/2002/30/contents

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn cydnabod y gallai fod angen cyfnod o gyflwyno ac felly mae'n argymhell y dylid blaenoriaethu cofrestriad proffesiynol rheolwyr cartrefi i blant.

Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol cofrestredig sy'n peri risg neu niwed i blant yn cael eu gwahardd rhag gweithio gyda phlant ar draws pob sector

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod y Swyddfa Gartref yn sicrhau y caiff Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ei diwygio mewn modd lle, pan fydd gwrandawriad addasrwydd i ymarfer wedi'i gynnal gan geidwad cofrestr perthnasol gan arwain at dynnu'r ymarferydd oddi ar y gofrestr honno o ganlyniad i resymau sy'n ymwneud â niwed i blant neu'r risg ohono:

- mae gan geidwad y gofrestr ddyletswydd i anfon y wybodaeth i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), ac
- mae gan y GDG, ar ôl derbyn y wybodaeth honno, ddyletswydd i wahardd yr ymarferydd yn awtomatig rhag gweithio gyda phlant, gan roi cyfle iddo gyflwyno sylwadau i'r GDG os yw'n ystyried y gwaharddiad i fod yn anghymesur neu'n annheg.

Sicrhau bod cwynion am y ffordd y mae'r heddlu wedi ymdrin ag achosion cam-drin plant yn rhywiol yn cael eu hystyried heb ystyried pryd digwyddodd y gamdriniaeth

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell bod Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn sicrhau na chaiff cwynion ynghylch cam-drin plant yn rhywiol eu trin yn 'anghymwys' mwyach gan heddluoedd ar sail y ffaith y digwyddodd mwy na 12 mis cyn cyflwyno'r gŵyn.

6.4 Ariannol

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed yn gyson am yr anawsterau y mae dioddefwyr a goroeswyr yn eu hwynebu wrth geisio cael cefnogaeth neu driniaeth. Codwyd hyn gan y dioddefwyr a'r goroeswyr a fu'n rhan o'r Prosiect Gwirionedd a thrwy ymgynghoriad ar-lein yr Ymchwiliad. Fe'i trafodwyd hefyd gan aelodau'r Fforwm a chyfranogwyr seminar ar brofiadau dioddefwyr a goroeswyr.

Mae'r Ymchwiliad wedi clywed am yr heriau cyllido sylweddol y mae'r rheiny sy'n darparu y gwasanaethau hyn yn eu hwynebu. Cefnogir gwasanaethau trwy amrywiaeth eang o gyrff comisiynu a threfniadau cyllido. Mae cyllid cyhoeddus yn dod o sawl adran ar draws Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac mae cyfrifoldebau i ddarparu gwasanaethau'n dibynnu ar nifer o asiantaethau'r sector cyhoeddus. Mae gan awdurdodau lleol, sefydliadau'r GIG a chomisiynwyr yr heddlu a throsedd oll rôl wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer eu poblogaethau lleol. Dywedwyd wrth yr Ymchwiliad fod prosesau comisiynu cymhleth a chylchoedd cyllido byr yn rhwystro cynllunio a buddsoddi hir-dymor mewn gwasanaethau cefnogi, ac maent yn achosi heriau penodol i sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n chwilio am gyllid cynhaliadwy.

Er mwyn cefnogi ei ystyriaeth o'r materion hyn, gofynnodd yr Ymchwiliad i'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i nodi lefelau cyfredol o wariant ar wasanaethau cefnogi i dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol. Nid oedd CIPFA

wedi gallu nodi'r lefelau cyfredol o wariant oherwydd diffyg data ariannol addas a gasglwyd gan yr asiantaethau sector cyhoeddus dan sylw. Canfu nad oedd gan ddata a gedwir gan yr asiantaethau hynny'r manylder a oedd ei angen er mwyn pennu faint sy'n cael ei wario ar gefnogaeth a thriniaeth i ddiodefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant. Dim ond peth o'r wybodaeth a gedwir gan wasanaethau arbenigol yn y sector gwirfoddol sydd â'r lefel hwn o fanylder. O ganlyniad, nid oedd yn bosib asesu y lefelau o wariant cyfredol ar wasanaethau i ddiodefwyr a goroeswyr.

Mae'n destun pryder i'r Ymchwiliad fod pwysau cyllido ar asiantaethau'r sector cyhoeddus yn ei gwneud yn anodd iddynt fodloni eu rhwymedigaethau statudol yn llawn a chynyddu buddsoddiad i atal cam-drin plant yn rhywiol. Ym marn yr Ymchwiliad, er mwyn i lywodraethau'r DU a Chymru sicrhau cyllid cynaliadwy i wasanaethau cefnogi i ddiodefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant, mae'n rhaid iddynt ddeall sut y caiff adnoddau eu dyrannu ar hyn o bryd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau y maent yn eu cyllido. Ni fydd y gwaith hwn yn ddigonol ar ei ben ei hun – mae asesiad diweddar a chywir o lefel a maint yr angen am gefnogaeth hefyd yn angenrheidiol. Mae'r Ymchwiliad o'r farn y dylid mynd i'r afael â hyn fel mater o frys.

Argymhellion

Lloegr

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yr Adran Addysg, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref gydweithio er mwyn canfod lefelau cyfredol o wariant cyhoeddus ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw o ran gwasanaethau i ddiodefwyr sy'n blant a goroeswyr sy'n oedolion o gamdriniaeth rywiol yn blant yn Lloegr.


Cymru

Mae'r Cadeirydd a'r Panel yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth y DU gydweithio er mwyn canfod lefelau cyfredol o wariant cyhoeddus ac effeithiolrwydd y gwariant hwnnw o ran gwasanaethau i ddiodefwyr sy'n blant a goroeswyr sy'n oedolion o gamdriniaeth rywiol yn blant yng Nghymru.

7 Rhaglen waith yr Ymchwiliad ar gyfer 2018-19

Mae Ffigur 1 yn nodi digwyddiadau allweddol yng ngwaith yr Ymchwiliad ar gyfer y 12 mis nesaf.

Ffigur 1 Gwrandawidiadau cyhoeddus a seminarau yn 2018-19



Bydd yr Ymchwiliad yn parhau i annog dioddefwyr a goroeswyr camdriniaeth rywiol yn blant i ystyried cymryd rhan yn y Prosiect Gwirionedd a bydd yn symud ei raglen ymchwil ymlaen. Bydd hefyd yn ymgysylltu â'r Fforwm Dioddefwyr a Goroeswyr ac eraill sydd â diddordeb yng ngwaith yr Ymchwiliad.

